# LLOYD (TEULU), Maesyfelin, Sir Aberteifi

Syr MARMADUKE LLOYD (1585 - 1651?)

oedd y cyntaf o'r llinach i ymsefydlu yn Maesyfelin (neu Millfield), gerllaw Llanbedr-Pont-Steffan, Sir Aberteifi; ganwyd 1585, mab ac aer Thomas Lloyd, cantor a thrysorydd eglwys gadeiriol Tyddewi, a nai Marmaduke Middleton, esgob Tyddewi. Aeth i Goleg Oriel, Rhydychen, 1599, a graddio'n B.A., 1603. Ar 26 Mawrth 1604 aeth i'r Middle Temple, a derbyniwyd ef yn fargyfreithiwr ar 3 Tachwedd 1608. Priododd Mary, ferch John Gwyn Stedman, Strata Florida, a bu iddynt dri mab a chwe merch. Yr oedd yn atwrnai'r brenin yng Nghymru a'r goror, 1614-22, dewiswyd ef yn aelod o gyngor y goror ar 3 Rhagfyr 1614, a gwnaethpwyd ef yn farchog ar 7 Ebrill 1622. Bu'n gofiadur Aberhonddu, 1617-36, is-farnwr cylchdaith Caer, 1622-36, a phrif farnwr cylchdaith Brycheiniog, 1636-45.

Yr oedd Syr Marmaduke yn Frenhinwr ffyddlon, a phan gymerwyd Henffordd gan fyddin y Senedd, 18 Rhagfyr 1645, cymerwyd yntau'n garcharor a'i gadw felly am dymor nes iddo, yn 1647, dalu swm o arian am ei stad. Ceir ei enw hefyd yn rhestr carcharorion a gymerwyd gan y cyrnol Horton pan orchfygwyd un o luoedd y brenin yn Sain Ffagan, Sir Forgannwg, 8 Mai 1648. Yr oedd yn gyfeillgar â Rhys Prichard, ficer Llanymddyfri. Yr oedd yn fyw ym mis Mawrth 1650, eithr profwyd ei ewyllys ar 8 Tachwedd 1651.

Dilynwyd Syr Marmaduke gan ei fab hynaf, FRANCIS LLOYD. Ni wyddys ym mha flwyddyn y ganwyd ef. Priododd (1), Mary, merch John Vaughan, iarll Carberry; a (2), Bridget, merch Richard Leigh, a fu'n faer Caerfyrddin yn 1666. Ganesid i Francis Lloyd a Bridget ddau fab, Lucius a Charles, pan oedd y wraig gyntaf eto'n fyw. Bu'n aelod seneddol dros Gaerfyrddin o 9 Mawrth 1640 hyd y 'rhwystrwyd' ef i eistedd, sef ar 5 Chwefror 1644. Yr oedd yntau, fel ei dad, yn Frenhinwr. Bu'n ' Comptroller of the Household ' i Siarl I, a gwnaethpwyd ef yn farchog, 24 Mawrth 1643, yn Rhydychen. Yr oedd yn bennaeth y marchoglu dros y brenin yn Sir Benfro ac yn un o benaethiaid byddin y brenin a ffodd ar ffrwst mawr o Hwlffordd cyn i'r dref honno gael ei chymryd gan y cyrnol Laugharne yn 1644. Cymerwyd ef a'i dad yn garcharorion yn Henffordd ym mis Rhagfyr 1645. Cytunodd, 24 Ionawr 1646, i dalu iawn, eithr ymddengys iddo ymuno â byddin y brenin eilwaith a chymerwyd yntau, fel ei dad, yn garcharor ym mrwydr Sain Ffagan. Wedi'r Adferiad fe'i dewiswyd yn ' Gentleman of the Privy Chamber ' i Siarl II. Bu farw yn 1669, a chladdwyd ef yn Llanbedr-Pont-Steffan.

Yr oedd gan Syr Marmaduke Lloyd ail fab, sef MARMADUKE LLOYD. Efe oedd tad FRANCIS LLOYD (1655 - 1704), Llwydlo a Cherrig-cadarn, sir Frycheiniog. Bu Francis Lloyd yn aelod seneddol dros Lwydlo, 1691-5, yn atwrnai cyffredinol cylchdaith Morgannwg, Brycheiniog, a Maesyfed, 1689-95, yn is-farnwr cylchdaith Môn, Caernarfon, a ' Meirionnydd, 1695-1701, a chylchdaith Caerfyrddin, 1701-2. O 1692 hyd ei farw yn 1704 efe oedd cofiadur Llwydlo.

Dilynwyd Syr Francis Lloyd yn ei stadau gan ei ail fab gordderch, Syr CHARLES LLOYD (1662 - 1723) - buasai Lucius farw yn ystod oes ei dad. Cafodd Charles Lloyd ei addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Priododd (1), Jane, merch Morgan Lloyd, Greengrove, a bu iddo ddwy ferch o'r briodas hon; a (2), Frances, merch Syr Francis Cornwallis, Abermarlais, Sir Gaerfyrddin. Cafwyd dau fab a phedair merch o'r ail briodas. Bu Charles Lloyd yn siryf Sir Aberteifi, 1690, a Sir Gaerfyrddin, 1716; gwnaethpwyd ef yn farchog, 1693, ac yn farwnig yn 1708. Bu'n cynrychioli bwrdeisdrefi Aberteifi yn y Senedd, 1698-1701. Bu farw 28 Rhagfyr 1723 a chladdwyd ef yn Llanbedr-Pont-Steffan. Dilynwyd ef gan ei fab hynaf, Syr CHARLES CORNWALLIS LLOYD, yr ail farwnig. Priododd ef - Jennings, Anderton, swydd Somerset. Bu farw 25 Chwefror 1729 yn 24 oed. Dilynwyd yntau gan ei frawd iau, Syr LUCIUS CHRISTIANUS LLOYD, a briododd Anne, merch Walter Lloyd, Peterwell, gerllaw Llanbedr-Pont-Steffan. Bu'n siryf Sir Aberteifi yn 1746. Gan iddo farw'n ddi-blant, 18 Ionawr 1750, daeth llinach wrywol y teulu i'w therfyn ac aeth y stadau i feddiant teulu Lloyd, Peterwell.

## Awdur

**Major Herbert John Lloyd-Johnes**, (1900 - 1983)

## Ffynonellau

William Edmunds, *On some old families in the neighbourhood of Lampeter, Cardiganshire* (Dinbych 1860)

W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

L. E. Lloyd-Theakston and John Davies, *Some family records & pedigrees of the Lloyds of Allt yr Odyn, Castell Hywel, Ffos y Bleiddiaid, Gilfach Wen, Llan Llyr and Waun Ifor* (Rhydychen 1912-1913)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733827

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu